NAWR GELLWCH **CHI** DDARLLEN . . .

# Jac a'i Goeden Ffa

www.gomer.co.uk

Diolch i wasg Gomer am eu caniatad i gynhyrchu deunyddiau digidol hyn



AU DARLLEN



Roedd Jac a'i fam yn dlawd iawn a rhyw ddiwrnod anfonodd mam Jac ei mab i'r farchnad i werthu ei hunig fuwch. Ar y ffordd i'r farchnad dyma fe'n cwrdd â dyn. Gofynnodd hwnnw iddo, "Ydy dy fuwch di ar werth?"
"Ydy," atebodd Jac.
"Yna mi ro' i bump o ffa i ti amdani hi," dywedodd y dyn.

“Dydy hynny ddim i’w weld yn rhyw lawer iawn am fuwch,” atebodd Jac.
“Ond nid ffa cyffredin mohonyn nhw,” meddai’r dyn. “Ffa hud ydyn nhw.”
“O, fe’u cymera’ i nhw, felly, ac fe gei dithau’r fuwch,” atebodd Jac yn syth.





Pan aeth Jac adre dangosodd y ffa i'w fam. Gwylltiodd gymaint fel y cipiodd y ffa o'i law a'u taflu allan drwy'r ffenest. Gwrthodai'n lân â derbyn stori Jac mai ffa hud oedden nhw.

"Dydy'r fath beth â ffa hud ddim yn bod," meddai hi. Gyrrodd Jac i'w wely heb yr un tamaid o swper.

Ond gwnaeth hi gamsyniad mawr! Yn ystod y nos ymwthiodd y ffa hud o'r pridd gan dyfu a thyfu a THYFU. Trannoeth, y tu allan i'r ffenest, roedd coeden ffa ARUTHROL o fawr. "Fe ddringa' i i'r brigyn ucha i weld beth sydd yno," meddai Jac. "Bydd yn ofalus!" gwaeddodd ei fam arno.





Aeth Jac yn ei flaen gan ddringo'n uwch ac yn uwch. O'r diwedd cyrhaeddodd y byd uwchlaw'r cymylau. Curodd wrth y drws cynta a welodd. Dyma'r drws yn cael ei agor gan wraig i gawr. Gofynnodd i Jac ddod i mewn i'r tŷ am damaid o frecwast.


Newydd orffen bwyta oedd Jac pan glywodd sŵn traed mawr a llais uchel yn taranu,

"FFI FFEI FFO FFYM
CLYWAF 'OGLAU GWAED YN AWR
RHYWUN DDAETH O'R DDAEAR
LAWR!"


"Brysia! Brysia!" sibrydodd y wraig, yn ofnus. "Fy ngŵr i ydy hwnna, Y CAWR. Mae'n bwyta bechgyn fel ti i'w frecwast. Brysia! Cuddia yn y ffwrn." Wrth gwrs, dyna'n union beth wnaeth Jac. Doedd e ddim am gael ei fwyta.



Roedd y cawr yn siŵr iddo glywed arogl bachgen ond lwyddodd e ddim i ddod o hyd iddo. Dyma'r cawr felly'n gorfod bodloni ar uwd yn unig i'w frecwast.



Ar ôl i'r cawr lawcio pob tameidyn galwodd am ei iâr. Gwyliai Jac y cwbwl o'r ffwrn a gwelodd yn glir yr hyn a ddigwyddodd nesa.
"Iâr, dodwya nawr!" meddai'r cawr yn gas. Ar y gair dodwyodd yr iâr ŵy aur hyfryd, yn sglein i gyd.



"O! fel y byddai Mam yn hoffi cael iâr fel 'na," meddyliai Jac.



Arhosodd Jac nes i'r cawr fynd i gysgu, yna daeth allan o'r ffwrn yn dawel fel llygoden fach. Cydiodd yn yr iâr a'i rhoi y tu mewn i'w grys. "Rwyt ti'n dod adre gyda mi," sibrydodd.

Rhedodd o'r tŷ heb ddeffro'r cawr ac i lawr y goeden ag e fel wiwer.

"Edrychwch beth sy gen i!" gwaeddodd ar ei fam pan redodd hi ato.



Bore trannoeth, dringodd Jac y goeden ffa unwaith eto gan fynd yn ôl i dŷ'r cawr cas.
"FFI FFEI FFO FFYM!"
taranodd y cawr.
"CLYWAF 'OGLAU GWAED YN AWR RHYWUN DDAETH O'R DDAEAR LAWR!"
Mewn drôr y cuddiodd Jac y tro yma. Bu'n rhaid i'r cawr unwaith eto fodloni ar uwd i'w frecwast. Roedd y cawr yn wyllt gaclwm.



Pan orffennodd y cawr ei bryd o uwd, galwodd am ei delyn.
"Cân, delyn fach!" gwaeddodd. A chanodd y delyn er na chyffyrddodd y cawr â'i thannau.




"O! fel yr hoffai Mam gael y delyn yma," meddyliai Jac.

O'r diwedd cysgodd y cawr, ac ymlusgodd Jac o'r drôr heb yr un smic. Rhoddodd ei law ar y delyn i'w chipio. Ond cyn gynted ag y cyffyrddodd â'r delyn gwaeddodd hithau'n uchel:

"Meistr! Meistr! Deffrowch! Deffrowch!"

Gwthiodd Jac y delyn yn gyflym y tu mewn i'w grys i fygu ei llais ond roedd yn rhy hwyr. Neidiodd y cawr o'i gadair gan ruo dros y lle.



"FFI FFEI FFO FFYM!"
taranodd.
"RYDW I'N SIŴR YN
AWR IMI AROGLI
BWYD I'R CAWR!"





Cael a chael oedd hi i Jac ddianc rhag bysedd anferth y cawr. Rhedodd nerth ei draed at ben y goeden ffa.
“FFI FFEI FFO FFYM!” bloeddiodd y cawr. Roedd yn wyllt gynddeiriog.
“FFI FFEI FFO FFYM!”

Wrth i Jac ruthro i lawr y goeden ffa fe allai ei chlywed hi'n crynu ac yn ysgwyd. Gallai deimlo anadl y cawr ar ei war fel rhyw wynt poeth, ffyrnig. "FFI FFEI FFO FFYM!"



Clywodd mam Jac yr holl dwrw a rhedodd allan. Roedd hi wedi dychryn pan welodd hi'r cawr.

"Brysiwch, Mam! Brysiwch! Dewch â'r fwyell ar unwaith!" gwaeddodd Jac wrth iddo neidio o'r goeden. Doedd dim amser i'w golli. Cipiodd y fwyell o law ei fam, ac â'i holl egni rhoddodd un ergyd anferth â'r fwyell gan dorri'n lân drwy fôn y goeden ffa.




Syrthiodd y goeden gan ysgwyd y ddaear. Gwnaeth hi dwll mor ddwfn fel na welodd neb na'r goeden na'r cawr fyth wedyn.
Bu Jac a'i fam fyw'n hapus byth wedyn.



Roedd ganddyn nhw iâr oedd yn dodwy wyau aur a thelyn oedd yn canu ohoni ei hun.
Fuon nhw fyth yn dlawd tra buon nhw byw.

Mae pob un o'r rhain yn ymddangos yn y stori. Fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw?






Adroddwch y stori yn eich geiriau eich hunain gyda help y lluniau. Yna, gwnewch eich lluniau eich hunain hefyd.